

**Trydydd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Agored y DU  
2016-2018  
Adroddiad Hunanasesu Diwedd Tymor Llywodraeth Cymru**

**Hydref 2018**

**Cyflwyniad**

Cafodd [trydydd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Agored y DU](#) ei gyhoeddi ym mis Mai 2016. Nododd y cynllun ymrwymadau llywodraeth agored ar gyfer y DU am y ddwy flynedd nesaf. Ym mis Rhagfyr 2016, cafodd ymrwymadau pob un o'r gweinyddiaethau datganoledig, gan gynnwys [Llywodraeth Cymru](#) eu cyhoeddi mewn diweddariad i Gynllun Gweithredu'r DU. Amlinellodd yr ymrwymadau hyn uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ynghylch gweithio'n fwy agored a chynnwys dinasyddion mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Fel rhan o gylich dwy flynedd y cynllun gweithredu, mae'n ofynnol i lywodraethau lunio adroddiadau hunanasesu [canol tymor](#) a diwedd tymor. Mae'r hunanasesiad diwedd tymor hwn yn adeiladu ar yr asesiad canol tymor ac yn ein galluogi i fyfyrio ar lwyddiannau a heriau'r ymrwymadau cyfredol.

**Datblygu'r Cynllun**

Roedd Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o goladu a monitro ymrwymadau Llywodraeth Cymru yn barhaus yn nhrydydd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU. Bu swyddogion yn cydweithio'n agos â chydweithwyr Swyddfa Cabinet y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill wrth ddatblygu'r ymrwymadau, gan rannu gwybodaeth ac arfer gorau. Maent yn parhau i gysylltu'n rheolaidd i drafod gweithredu ymrwymadau cyfredol a datblygu ymrwymadau yn y dyfodol.

Pan oedd ymrwymadau'r cynllun yn cael eu datblygu, nid oedd rhwydwaith cymdeithas sifil yn bodoli yng Nghymru a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar lywodraeth agored. Fodd bynnag, cafodd nifer o'r ymrwymadau eu datblygu gyda mewnbwn gan sefydliadau allanol unigol a chan gymdeithas sifil. Ar ôl cyhoeddi'r ymrwymadau, roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a Chymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid i'w galluogi i sefydlu

rhwydwaith cymdeithas sifil yng Nghymru, sef [Rhwydwaith Llywodraeth Agored Cymru](#).

## **Dull Adrodd Annibynnol**

Yn ogystal â'r broses hunanasesu, mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU hefyd yn destun craffu annibynnol. Ym mis Ebrill 2018 cyhoeddwyd yr [adroddiad asesu canol tymor annibynnol](#). Darparodd yr adroddiad grynodedb o gynnydd, sylwadau ar lwyddiant a chyfres o argymhellion. Yn yr adroddiad, dim ond dau o ymrwymïadau'r DU a nodwyd fel rhai penodol, perthnasol, trawsnewidiol o bosibl ac a oedd wedi cael eu rhoi ar waith yn sylweddol neu'n llawn. Roedd yr ymrwymïadau amlwg neu serenog hyn ill dau yn ymrwymïadau Llywodraeth Cymru, ac maent fel a ganlyn:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Dangosyddion Cenedlaethol Cymru
- Dyletswydd Llesiant ar gyrff cyhoeddus penodedig yng Nghymru

Wrth i ni symud tuag at yr ail flwyddyn o roi'r ymrwymïadau ar waith ceisiwyd mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion a nodwyd yn yr Asesiad Canol Tymor Annibynnol. Er enghraifft, mae gwaith yn mynd rhagddo ar wella cyflwyniad a hygyrchedd y Dangosyddion Cenedlaethol. Mae gwelliannau i'n platfform data agored ystadegol, StatsCymru, hefyd yn parhau ac rydym wedi bod yn defnyddio offer i'n helpu i wella'r broses o ddelweddu'r data. Rydym hefyd yn ceisio dysgu gan eraill o ran eu portholion data ac mae gwaith yn dechrau ar nodi'r modd y gallwn helpu defnyddwyr i ddod o hyd i ddata agored a'u defnyddio yn haws.

## **Casgliad a'r Camau Nesaf**

Lai na dwy flynedd ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi y tro cyntaf, mae'r mwyafrif o ymrwymïadau Llywodraeth Cymru wedi cael eu cwblhau. Dangosir manylion pellach am y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r naw ymrwymïad yn Atodiad 1.

Mae rhai ymrwymïadau wedi'u cwblhau, ac mae ganddynt gerrig milltir y nodwyd eu bod yn 'barhaus' gan y bydd yr elfennau hyn yn parhau i'r dyfodol. Mewn achosion o'r fath, megis ailasesu'r gofynion ar gyfer catalog o setiau data agored, byddwn yn ceisio datblygu'r rhain drwy eu cynnwys yn y set nesaf o ymrwymïadau Llywodraeth

Cymru. Fel gyda'r hunanasesiad canol tymor, bydd yr hunan-asesiad diwedd tymor hefyd yn destun craffu annibynnol.

Rydym yn cydnabod yn llawn yr angen i adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma drwy barhau i feithrin natur agored a thryloyw. Wrth i Gynllun Gweithredu Cenedlaethol cyfredol y DU ddod i ben, mae ymrwymïadau newydd ar gyfer y cynllun nesaf eisoes yn cael eu datblygu. Er mwyn datblygu'r ymrwymïadau newydd hyn, rydym yn gweithio gyda chymdeithas sifil, drwy Rwydwaith Llywodraeth Agored Cymru. Rydym yn gobeithio adeiladu ar y dull hwn yn y dyfodol, gan ddysgu'r gwersi o ganlyniadau'r cynllun gweithredu cyfredol.

## Atodiad 1

1. Cynllun data agored		
<b>Neilltuo Cyllid</b>	Datblygu cynllun data agored i Lywodraeth Cymru a'i roi ar waith a gweithio tuag at gyflawni'r ymrwymïadau a amlinellir yn y cynllun.	
<b>Adran(nau) arweiniol</b>	Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol, Llywodraeth Cymru	
<b>Eraill fu'n ymwneud â'r broses o roi'r ymrwymïad ar waith hyd yn hyn</b>	-	
<b>Llinell amser</b>	Mawrth 2016 – Mawrth 2018	
<b>Statws cyffredinol yr ymrwymïad</b>	Parhaus	
<b>Cynnydd cyffredinol yn erbyn yr ymrwymïad</b>	Cyhoeddwyd <a href="#">Cynllun Data Agored Llywodraeth Cymru</a> ym mis Mawrth 2016. Mae cynnydd da wedi'i wneud ar nifer o'r ymrwymïadau a bennwyd yn y cynllun. Er bod oedi wedi bod wrth ddatblygu rhai o'r ymrwymïadau, mae adnoddau bellach ar gael i adolygu a datblygu'r gwaith hwn.	
Cynnydd yn erbyn cerrig milltir/gweithgareddau		
Carreg filltir	Y wybodaeth ddiweddaraf	Statws
1. Rhoi'r ymrwymïadau a amlinellir yng Nghynllun Data Agored Llywodraeth Cymru ar waith  Mawrth 2016 – Mawrth 2018	Mae'r mwyafrif o'r ymrwymïadau yn y Cynllun Data Agored wedi'u cwblhau neu yn achos ymrwymïadau penagored yn mynd rhagddynt.  Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Gwasanaeth Data Agored i Gymru drwy adeiladu ar y seilwaith Lle presennol a'i ehangu.  Caffaelwyd adnoddau yn ddiweddar er mwyn adolygu a hyrwyddo'r gwaith ar ddatblygu catalog o setiau data agored a chaffael tystysgrif data agored.	Parhaus

<b>2. Gwasanaeth data agored</b>		
<b>Neilltuo Cyllid</b>	Datblygu Gwasanaeth Data Agored i Gymru gyda ffocws ar helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus.	
<b>Adran(nau) arweiniol</b>	Pennaeth Daearyddiaeth a Thechnoleg, Llywodraeth Cymru	
<b>Eraill fu'n ymwneud â'r broses o roi'r ymrwymiad ar waith hyd yn hyn</b>	<p>Mentrau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi data i Gymru, y gall rhai ohonynt ddeillio o adrannau eraill o'r llywodraeth.</p> <p>Adrannau eraill o Lywodraeth Cymru sy'n cyhoeddi data i Gymru.</p> <p>Mae defnyddwyr wedi bod yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu gwefan StatsCymru, e.e. rhoi adborth, a chael y wybodaeth ddiweddaraf mewn fforymau amrywiol i ddefnyddwyr. Mae hyn wedi cynnwys ein grŵp defnyddwyr sy'n cwmpasu'r trydydd sector.</p>	
<b>Llinell amser</b>	Mawrth 2016 – Mawrth 2017	
<b>Statws cyffredinol yr ymrwymiad</b>	Wedi cwblhau	
<b>Cynnydd cyffredinol yn erbyn yr ymrwymiad</b>	Mae'r mwyafrif o'r cerrig milltir sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiad hwn wedi eu cwblhau ac mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo ar ddatblygu Gwasanaeth Data Agored i Gymru. Mae gwaith ar y garreg filltir i ddatblygu catalog o setiau data agored yn mynd rhagddo, a chaffaelwyd adnoddau i adolygu a datblygu'r gwaith fel y bo angen.	
<b>Cynnydd yn erbyn cerrig milltir/gweithgareddau</b>		
<b>Carreg filltir</b>	<b>Y wybodaeth ddiweddaraf</b>	<b>Statws</b>
1. Mae data StatsCymru yn cael eu cyhoeddi ar ffurf y gall peiriant eu darllen  Mehefin 2016 (parhaus)	Mae holl ddata heb eu harchifo StatsCymru (90% o'r cynnwys) bellach ar gael ar ffurf y gall peiriant eu darllen	Wedi cwblhau
2. Mae deunydd hyfforddiant StatsCymru ar welliannau'n cael ei baratoi a'i gyflwyno	Mae <a href="#">Deunydd canllaw</a> , yn ymwneud ag OData, wedi cael ei gynhyrchu ac mae bellach ar gael ar wefan StatsCymru. Mae hyn yn cynnwys fideo sy'n dangos sut i dynnu data i mewn i Excel o API (Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau) OData.	Wedi cwblhau

Tachwedd 2016 – Rhagfyr 2017		
3. Lle wedi ei ddatblygu i alluogi defnyddwyr i greu eu mapiau eu hunain  Ionawr 2016 – Ionawr 2017	Mae <a href="#">Gwasanaeth beta o seilwaith Lle</a> bellach ar gael i bob defnyddiwr ac mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i lunio proffiliau map ar gyfer adrannau Llywodraeth Cymru. Mae gwaith wedi dechrau hefyd ar wella maint ac ansawdd y data gofodol sydd ar gael i ddefnyddwyr er mwyn adeiladu eu mapiau eu hunain.	Wedi cwblhau
4. Mae catalog o ddata agored yn cael ei baratoi  Hydref 2016 – Rhagfyr 2016	Yn ddiweddar, caffaelwyd adnoddau i adolygu a hyrwyddo'r gwaith ar ddatblygu catalog o setiau data agored fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Data Agored Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys nodi beth sydd ei angen ar ddefnyddwyr a beth fyddai'n ateb posibl.	Parhaus

<b>3. StatsCymru</b>		
<b>Neilltuo Cyllid</b>	Datblygu StatsCymru, sef ystorfa ar-lein Llywodraeth Cymru ar gyfer data ystadegol manwl, er mwyn codi ei statws bod yn agored i 4*.	
<b>Adran(nau) arweiniol</b>	Pennaeth Daearyddiaeth a Thechnoleg, Llywodraeth Cymru	
<b>Eraill fu'n ymwneud â'r broses o roi'r ymrwymiad ar waith hyd yn hyn</b>	Menter Llywodraeth Cymru sy'n cyhoeddi data i Gymru, y gall rhai darnau ddod o adrannau eraill o'r llywodraeth.  Mae defnyddwyr wedi bod yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu gwefan StatsCymru, e.e. rhoi adborth, a chael y wybodaeth ddiweddaraf mewn fforymau amrywiol i ddefnyddwyr. Mae hyn wedi cynnwys ein grŵp defnyddwyr sy'n cwmpasu'r trydydd sector.	
<b>Llinell amser</b>	Mawrth 2016 – Rhagfyr 2017	
<b>Statws cyffredinol yr ymrwymiad</b>	Wedi cwblhau	
<b>Cynnydd cyffredinol yn erbyn yr ymrwymiad</b>	Mae gwelliannau wedi'u gwneud i StatsCymru a'i ganllawiau ac, o ganlyniad, mae sgôr natur agored StatsCymru wedi gwella. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ymchwilio i'r posibilrwydd o achredu setiau data yn awtomatig sydd ar gael drwy StatsCymru.	
<b>Cynnydd yn erbyn cerrig milltir/gweithgareddau</b>		
<b>Carreg filltir</b>	<b>Y wybodaeth ddiweddaraf</b>	<b>Statws</b>
1. Mae data StatsCymru yn cael eu cyhoeddi ar ffurf y gall peiriant eu darllen  Mehefin 2016 (parhaus)	Mae holl ddata heb eu harchifo StatsCymru (90% o'r cynnwys) bellach ar gael ar ffurf y gall peiriant eu darllen.	Wedi cwblhau
2. Mae canllawiau a fideos hyfforddiant StatsCymru yn cael eu paratoi a'u cyhoeddi  Tachwedd 2016 – Rhagfyr 2017	Mae <a href="#">Deunydd canllaw</a> , yn ymwneud ag OData, wedi cael ei gynhyrchu ac mae bellach ar gael ar wefan StatsCymru. Mae hyn yn cynnwys fideo sy'n dangos sut i dynnu data i mewn i Excel o API (Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau) OData.  Noder: mae cerrig milltir 2 a 4 wedi cael eu cyfuno	Wedi cwblhau

<p>3. Caiff StatsCymru ei achredu'n llwyddiannus</p> <p>Medi 2016 – Mawrth 2017</p>	<p>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ymchwilio i'r posibilrwydd o achredu setiau data yn awtomatig sydd ar gael drwy StatsCymru</p>	<p>Parhaus</p>
<p>4. Mae deunydd hyfforddiant StatsCymru yn cael ei baratoi a'i gyflwyno</p> <p>Tachwedd 2016 – Rhagfyr 2017</p>	<p>Mae <a href="#">Deunydd canllaw</a>, yn ymwneud ag OData, wedi cael ei gynhyrchu ac mae bellach ar gael ar wefan StatsCymru. Mae hyn yn cynnwys fideo sy'n dangos sut i dynnu data i mewn i Excel o API (Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau) OData.</p> <p>Noder: mae cerrig milltir 2 a 4 wedi cael eu cyfuno</p>	<p>Wedi cwblhau</p>



<b>4. Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru</b>		
<b>Neilltuo Cyllid</b>	Mewn partneriaeth â Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau bod mynediad at setiau data'r llywodraeth ar gael mewn modd diogel at ddibenion ymchwil academaidd a sector cyhoeddus. At hynny, caiff mynediad o'r fath ei hyrwyddo er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o'r data hyn at ddibenion ymchwil a gyhoeddir ac sydd ar gael er mwyn helpu i wneud penderfyniadau gwell.	
<b>Adran(nau) arweiniol</b>	Prif Ystadegydd, Llywodraeth Cymru	
<b>Eraill fu'n ymwneud â'r broses o roi'r ymrwymiad ar waith hyd yn hyn</b>	Awdurdod Ystadegau'r DU  Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol – Cymru (partneriaeth academaidd); Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol; Bwrdd y Rhwydwaith Ymchwil Data Gweinyddol	
<b>Llinell amser</b>	Parhaus	
<b>Statws cyffredinol yr ymrwymiad</b>	Wedi cwblhau	
<b>Cynnydd cyffredinol yn erbyn yr ymrwymiad</b>	Mewn partneriaeth â <a href="#">Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru</a> (ADRC-W), mae ymchwil bellach wedi cael ei chyhoeddi. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu nifer y setiau data sector cyhoeddus sydd ar gael i ymchwilwyr Cymru drwy ADRC-W. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys prosiect peilot Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Llywodraeth Cymru i osod 'Offer Data Ymchwil Cenedlaethol' mewn Awdurdodau Lleol. Bydd yr offer yn galluogi Awdurdodau Lleol i ddarparu data at ddibenion ymchwil yn uniongyrchol ac yn ddiogel i ADRC-W.	
<b>Cynnydd yn erbyn cerrig milltir/gweithgareddau</b>		
<b>Carreg filltir</b>	<b>Y wybodaeth ddiweddaraf</b>	<b>Statws</b>
1. Cyhoeddi rhagor o ymchwil mewn partneriaeth â Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru erbyn diwedd y flwyddyn	Mae'r prosiectau canlynol yn Rhaglen Llywodraeth Cymru i Wneud Gwell Defnydd o Ddata Presennol wedi cyhoeddi adroddiadau neu wrthi'n cyhoeddi adroddiadau:  <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Prosiect Cysylltu Data Cefnogi Pobl</b> <a href="#">Adroddiad Astudiaeth Dichonoldeb</a> – cyhoeddwyd mis Mawrth 2016</li> </ul>	Wedi cwblhau / Parhaus

<p>ariannol</p> <p>Mawrth 2015 – 31/03/17</p>	<p><a href="#">Adroddiad Cynnydd Blwyddyn Dau a Chanfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg</a> – cyhoeddwyd mis Mehefin 2018 a mis Hydref 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Prosiect Cysylltu Data Tlodi Tanwydd</b></li> </ul> <p><a href="#">Adroddiad Rhif 1: Canfyddiadau Cychwynnol ar yr Effaith ar Iechyd Cynllun Nest Cartrefi Clyd</a> - cyhoeddwyd mis Ebrill 2017</p> <p>Mae'r ail adroddiad a'r trydydd un ar ganfyddiadau o sylwedd, ar y trywydd iawn i gael eu cyhoeddi rhwng mis Hydref 2018 a mis Chwefror 2019.</p> <p>Yn ystod 2019, disgwylir i nifer o brosiectau yn y Rhaglen gynhyrchu mwy o gyhoeddiadau o ganfyddiadau eu hymchwil, gan gynnwys 'Astudiaeth Ddichonoldeb Casglu Data Lefel Unigol Dechrau'n Deg'.</p>	
<p>2. Cynyddu nifer setiau data'r sector cyhoeddus sydd ar gael i ymchwilyr yng Nghymru drwy Ganolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol</p> <p>Mawrth 2015 – 31/03/17</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio mewn nifer o feysydd er mwyn cynyddu nifer setiau data'r sector cyhoeddus sydd ar gael i ymchwilyr yng Nghymru drwy Ganolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda phrosiectau academaidd er mwyn eu helpu a'u cynghori o ran cael mynediad at setiau data.</li> <li>• Ariannu/cydariannu prosiectau ymchwil cysylltu data sy'n sbarduno'r broses o rannu setiau data ychwanegol, e.e. data ar gyfer cynllun effeithlonrwydd ynni cartref Nyth Cartrefi Clyd a ariennir gan Lywodraeth Cymru.</li> <li>• Cynnwys gofyniad i ddarparu setiau data i <a href="#">SAIL</a> (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw) / yr ADRC-W yn Nhelerau ac Amodau grant rhaglenni cenedlaethol, e.e. Cefnogi Pobl a Dechrau'n Deg, y dechreuwyd sicrhau bod data ar gael ar eu cyfer.</li> <li>• Cydariannu, gyda'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, y Prosiect Datblygu Llif Data (gweler Carreg Filltir 3 isod), a fydd yn helpu i gefnogi awdurdodau lleol wrth ddatblygu trefn, llifau data rheolaidd i SAIL/yr ADRC-W i'w ddefnyddio gan ymchwilyr yng Nghymru a'r DU yn ehangach;</li> <li>• Parhau ag adneuron data cyhoeddus rheolaidd sefydledig, e.e. ar gyfer <i>Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion ac Arolwg Cenedlaethol Cymru</i>;</li> </ul>	<p>Wedi cwblhau / Parhaus</p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i weithio gyda chydweithwyr yn fewnol ac yn allanol i ddatblygu prosiectau cysylltu data a chefnogi caffaeliad data e.e. gwnaethom weithio gyda Cafcass Cymru a Phrifysgol Abertawe a'u helpu i gaffael cyllid ar gyfer <i>Labordy Cyfiawnder Teuluol</i> a fydd yn adneuo data Cafcass dienw ar gyfer Cymru a Lloegr i'w cysylltu.</li> </ul>	
<p>3. Treialu technegau i awdurdodau lleol ddarparu data at ddibenion ymchwil yng Nghanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol</p> <p>Medi 2016 – 31/03/17</p>	<p>Mae prosiect a gydariennir gan Lywodraeth Cymru - prosiect y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol - ar y gweill i dreialu'r broses o osod technoleg cysylltu data awtomatig mewn awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i gysylltu setiau data a chyflenwi data at ddibenion ymchwil i SAIL/yr ADRC-W.</p> <p>Hyd yma, gosodwyd technoleg cysylltu data awtomatig yn Awdurdod Lleol Abertawe sydd wedi galluogi data i gael eu rhannu â SAIL/yr ADRC-W. Mae gwaith ar y gweill i ddadansoddi'r data a gosod y dechnoleg mewn pedwar Awdurdod Lleol braenaru arall.</p>	Parhaus

<b>5. Protocol Cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth</b>		
<b>Neilltuo Cyllid</b>	Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi ymchwil y llywodraeth yn unol â Phrotocol Cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, gan gyhoeddi teitlau adroddiadau ymlaen llaw a'u cyhoeddi ar dudalennau 'Ystadegau ac Ymchwil' gwefan Llywodraeth Cymru. Mae cyhoeddi adroddiadau ymchwil gymdeithasol yn unol â phrotocol cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn rhan allweddol o Egwyddorion Ymchwil a Gwerthuso Llywodraeth Cymru.	
<b>Adran(nau) arweiniol</b>	Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol, Llywodraeth Cymru	
<b>Eraill fu'n ymwneud â'r broses o roi'r ymrwymiad ar waith hyd yn hyn</b>	Llywodraeth Cymru	
<b>Llinell amser</b>	Er bod Protocol Cyhoeddi Ymchwil gymdeithasol y Llywodraeth wedi cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ers iddo gael ei gyflwyno yn 2010, bu ymrwymiad gan Weinidogion i ddefnyddio'r protocol ers mis Mawrth 2014.	
<b>Statws cyffredinol yr ymrwymiad</b>	Wedi cwblhau	
<b>Cynnydd cyffredinol yn erbyn yr ymrwymiad</b>	Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn protocol cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ac yn cyhoeddi teitl pob cyhoeddiad ymchwil ymlaen llaw.	
<b>Cynnydd yn erbyn cerrig milltir/gweithgareddau</b>		
<b>Carreg filltir</b>	<b>Y wybodaeth ddiweddaraf</b>	<b>Statws</b>
1. Defnyddio protocol cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ar gyfer pob cyhoeddiad ymchwil.  Mawrth 2010 (parhaus)	Mae protocol ar waith ac ni fu achos o dorri'r protocol hwnnw.	Wedi cwblhau
2. Ymrwymiad Gweinidogion i ddefnyddio protocol cyhoeddi Ymchwil	Ymrwymiad Gweinidogion wedi'i ail-gadarnhau ar ôl etholiad 2016.	Wedi cwblhau

Cymdeithasol y Llywodraeth. Mawrth 2014 (parhaus)		
--	--	--

## 6. Llyw.Cymru

<b>Neilltuo Cyllid</b>	Byddwn yn sicrhau ei bod yn haws dod o hyd i'n gwybodaeth a'n gwasanaethau drwy gyfuno ein cynnwys digidol ar wefan newydd i Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion defnyddwyr. Bydd y wefan yn cynnwys gwasanaeth ymgynghori gwell.
<b>Adran(nau) arweiniol</b>	Pennaeth y Tîm Digidol Corfforaethol, Is-adran Cyfathrebu
<b>Eraill fu'n ymwneud â'r broses o roi'r ymrwymiad ar waith hyd yn hyn</b>	Mae dinasyddion Cymru yn cymryd rhan yn y broses o brofi'r wefan.
<b>Llinell amser</b>	1 Ebrill 2015 – 30 Mehefin 2019
<b>Statws cyffredinol yr ymrwymiad</b>	Wedi cwblhau
<b>Cynnydd cyffredinol yn erbyn yr ymrwymiad</b>	Mae'r mwyafrif o'r cerrig milltir wedi cael eu cwblhau'n llwyddiannus, ac mae gwaith ar symud y cynnwys yn llawn i'r platfform newydd yn parhau yn unol â'r dyddiad a amlinellwyd yng ngharreg filltir 5.

### Cynnydd yn erbyn cerrig milltir/gweithgareddau

<b>Carreg filltir</b>	<b>Y wybodaeth ddiweddaraf</b>	<b>Statws</b>
1. Lansio gwasanaeth ymgynghori beta, gan gynnwys ffurflenni ymateb y gall defnyddwyr eu cadw  01/07/16 – 30/09/16	Cafodd y platfform ymgynghori ei lansio'n brydlon a gwneir cryn ddefnydd ohono. Mae'r adborth a gafwyd gan ddefnyddwyr mewnol ac allanol wedi bod yn gadarnhaol.	Wedi cwblhau

<p>2. Lansio platfform ymgyrchoedd beta</p> <p>01/10/16 – 30/11/16</p>	<p>Defnyddir y platfform ymgyrchoedd er mwyn hyrwyddo ymgyrchoedd ac mae wedi lleihau'n sylweddol y gost a'r amser sydd eu hangen i greu cynnwys.</p>	<p>Wedi cwblhau</p>
<p>3. Lansio platfform cyrff cyhoeddus beta</p> <p>01/01/17 – 31/03/17</p>	<p>Mae nifer o gyrff cyhoeddus wedi symud i'r platfform newydd ac mae ymarferoldeb ychwanegol yn cael ei asesu ar gyfer camau datblygu yn y dyfodol.</p>	<p>Wedi cwblhau</p>
<p>4. Cyhoeddi'r tranche cyntaf o gynnwys corfforaethol beta</p> <p>01/10/16 – 30/04/17</p>	<p>Mae tranche cyntaf cyfyngedig o gynnwys wedi'i gyflwyno ac mae'n parhau i gael ei fireinio.</p>	<p>Wedi cwblhau</p>
<p>5. Cyhoeddi gweddill y cynnwys corfforaethol</p> <p>01/05/17 – 30/06/19</p>	<p>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar symud y cynnwys corfforaethol sy'n weddill i'r platfform newydd.</p>	<p>Parhaus</p>

<b>7. Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi</b>		
<b>Neilltuo Cyllid</b>	Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cod ar gyfer ymddygiad moesegol mewn cadwyni cyflenwi, a fydd yn sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gamau gweithredu i liniaru problemau moesegol mewn cadwyn cyflenwi.	
<b>Adran(nau) arweiniol</b>	Rheolwr Prosiectau Arbennig, Gwerth Cymru, ESNR	
<b>Eraill fu'n ymwneud â'r broses o roi'r ymrwymiad ar waith hyd yn hyn</b>	Sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru  Busnesau a sefydliadau yn y trydydd sector yng Nghymru.	
<b>Llinell amser</b>	Mawrth 2016 – dechrau 2017	
<b>Statws cyffredinol yr ymrwymiad</b>	Wedi cwblhau	
<b>Cynnydd cyffredinol yn erbyn yr ymrwymiad</b>	Lansiwyd Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ym mis Mawrth 2017. O fis Hydref 2018, roedd 136 o sefydliadau wedi cofrestru ar gyfer y Cod ac roedd sefydliadau ychwanegol wrthi'n gwneud hynny.	
<b>Cynnydd yn erbyn cerrig milltir/gweithgareddau</b>		
<b>Carreg filltir</b>	<b>Y wybodaeth ddiweddaraf</b>	<b>Statws</b>
1. Y drafft cyntaf wedi'i gwblhau a'i gyflwyno yn Procurex  Mawrth 2016 – Medi 2016	Cyflwynwyd y Cod drafft yn nigwyddiad Procurex yn 2016.	Wedi cwblhau
2. Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu a'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu	Bu'r gwaith o gyflwyno'r cod yn nigwyddiad Procurex yn 2016 yn llwyddiant ac arweiniodd at gyhoeddi'r <i>Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi</i> ym mis Mawrth 2017.  Mae ymgysylltu â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn parhau – gyda gwaith parhaus i oruchwylio'r broses o roi'r Cod ar waith.	Wedi cwblhau

Hydref 2016 – Tachwedd 2016		
3. Ymgysylltu â'r sector busnes a'r trydydd sector  Hydref 2016 – dechrau 2017	Mae rhaglen barhaus o waith a luniwyd i godi ymwybyddiaeth o'r Cod a gwella nifer y busnesau sy'n cofrestru ar ei gyfer drwy wasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru ar y gweill.  Ym mis Hydref 2018, cynhaliwyd y digwyddiad Cod Ymarfer cydweithredol cyntaf a oedd yn canolbwyntio ar y cyflenwr yng Ngwynedd.	Wedi cwblhau / Parhaus
4. Lansio cod ar gyfer ymddygiad moesegol mewn cadwyni cyflenwi  Dechrau 2017	Lansiwyd y Cod ar 9 Mawrth 2017 yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu.	Wedi cwblhau
5. Cofrestru  Parhaus	Erbyn mis Hydref 2018, roedd 136 o sefydliadau wedi cofrestru ar gyfer y Cod ac mae llawer ohonynt yn gweithio'n galed i roi ymrwymiadau'r Cod ar waith. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys pob Prifysgol yng Nghymru, heddluoedd Cymru, 14 Awdurdod Lleol, 2 Gymdeithas Dai a nifer o sefydliadau busnes a thrydydd sector. Mae sefydliadau eraill wrthi'n cofrestru ac mae llawer mwy yn ystyried gwneud hynny.	Wedi cwblhau / Parhaus



<b>8. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Dangosyddion Cenedlaethol Cymru</b>		
<b>Neilltuo Cyllid</b>	Mesur cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant i Gymru a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chyflwyno adroddiad blynyddol arnynt.	
<b>Adran(nau) arweiniol</b>	Prif Ystadegydd	
<b>Eraill fu'n ymwneud â'r broses o roi'r ymrwymiad ar waith hyd yn hyn</b>	Cyrff cyhoeddus penodedig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Archwilydd Cyffredinol Cymru.	
<b>Llinell amser</b>	Mis Mawrth 2016 - Haf 2017 <sup>1</sup>	
<b>Statws cyffredinol yr ymrwymiad</b>	Wedi cwblhau	
<b>Cynnydd cyffredinol yn erbyn yr ymrwymiad</b>	Cwblhawyd yr ymrwymiad hwn yn ôl y disgwyl. Gosodwyd y Dangosyddion Cenedlaethol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2016 a chyhoeddwyd y data a oedd yn sail i'r dangosyddion ar wasanaethau data agored <a href="#">StatsCymru</a> erbyn mis Medi 2017. Defnyddiwyd y setiau data agored hyn i boblogi <a href="#">tudalennau gwe rhngweithiol</a> ar gyfer pob dangosydd ac roeddent yn rhan o becyn ehangach yn cefnogi'r adroddiadau blynyddol yn erbyn y nodau fel rhan o adroddiad Llesiant Cymru.	
<b>Cynnydd yn erbyn cerrig milltir/gweithgareddau</b>		
<b>Carreg filltir</b>	<b>Y wybodaeth ddiweddaraf</b>	<b>Statws</b>
1. Gosod 'Dangosyddion Cenedlaethol Cymru' gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru  Ebrill 2015 – Mawrth 2016	Gosododd Llywodraeth Cymru set o 46 o ddangosyddion cenedlaethol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn mesur cynnydd Cymru wrth gyflawni'r saith nod llesiant i Gymru. Cyhoeddwyd dogfen dechnegol ategol er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth am y dangosyddion terfynol.  Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:	Wedi cwblhau

<sup>1</sup> Dyddiad terfynol wedi ei ddiwygio o 'gynnar yn 2017' i ymgorffori'r cyfnod amser ar gyfer carreg filltir 2.

	<a href="http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators/?lang=cy">http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators/?lang=cy</a>	
2. Llunio'r Adroddiad Llesiant Blynyddol cyntaf i Gymru  Ebrill 2016 – haf 2017	<p>Cyhoeddwyd <a href="#">adroddiad Llesiant Cymru</a> ar 25 Medi 2017 fel adroddiad ar-lein rhyngweithiol sy'n defnyddio ffynonellau data agored. Cyhoeddwyd y <a href="#">data ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol</a> ar blatfform data agored StatsCymru ac fe'u cyflwynwyd yn weledol gan ddefnyddio dangosfyrddau Power B.I. Cyhoeddwyd ail argraffiad ar 20 Medi 2018.</p> <p>Symudwyd y cyhoeddiad i fis Medi er mwyn gallu dadansoddi data Arolwg Cenedlaethol Cymru ymhellach.</p>	Wedi cwblhau

<b>9. Dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodedig yng Nghymru</b>	
<b>Neilltuo Cyllid</b>	Mae dyletswydd ar bob corff cyhoeddus, a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni pob un o'r nodau llesiant a chymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.
<b>Adran(nau) arweiniol</b>	
<b>Eraill fu'n ymwneud â'r broses o roi'r ymrwymiad ar waith hyd yn hyn</b>	Y 43 o gyrff cyhoeddus a bennwyd o dan y Ddeddf, a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Archwilydd Cyffredinol Cymru
<b>Llinell amser</b>	Ebrill 2016 ymlaen
<b>Statws cyffredinol yr ymrwymiad</b>	Wedi cwblhau
<b>Cynnydd cyffredinol yn erbyn yr ymrwymiad</b>	<p>Mae'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodedig i bennu a chyhoeddi nodau llesiant, a'r ddyletswydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i asesu llesiant lleol wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y rhain yw'r dyletswyddau cyntaf y mae angen eu cyflawni er mwyn darparu'r sylfaen a fydd yn galluogi cyrff cyhoeddus penodedig a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni addewid y Ddeddf. Cafodd cerrig milltir 2 a 3 eu cwblhau o fewn yr amserlenni statudol a nodwyd yn y Ddeddf.</p> <p>Mae pob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf wedi cyhoeddi eu hamcanion llesiant a'u datganiad llesiant cysylltiedig fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Mae <a href="#">Cynlluniau Llesiant Lleol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</a> wedi cael eu cyhoeddi ac mae Cyrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ddarostyngedig i'r Ddeddf, yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.</p> <p>Cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol '<a href="#">Llesiant yng Nghymru: y daith hyd yn hyn</a>' sy'n amlinellu'r hyn y mae'r sefydliadau wedi ei ddweud y byddant yn ei wneud yn y flwyddyn gyntaf hon ac yn rhoi cyngor ar y ffordd orau o ddangos eu bod yn cymryd camau effeithiol i gyflawni eu hamcanion.</p>

	Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi ei sylwebaeth fel adroddiad cyfochrog, ' <a href="#">Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?</a> ' ar y modd y mae'r 44 o gyrff cyhoeddus yn dechrau ymateb i'w dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.	
<b>Cynnydd yn erbyn cerrig milltir/gweithgareddau</b>		
<b>Carreg filltir</b>	<b>Y wybodaeth ddiweddaraf</b>	<b>Statws</b>
1. Y ddyletswydd gyfreithiol yn dod i rym  Ebrill 2016 – Ebrill 2017	Dechreuwyd ar adran berthnasol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar 1 Ebrill 2016. Ewch i <a href="http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/86/contents/made">http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/86/contents/made</a>	Wedi cwblhau
2. Cyrff cyhoeddus yn cyhoeddi eu hamcanion llesiant cyntaf  Ebrill 2016 – Ebrill 2017	Mae'r holl gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant wedi cyhoeddi eu hamcanion llesiant cyntaf. Gellir gweld yr amcanion hyn ar y gwefannau perthnasol. Ar gyfer rhestr o'r gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant, ewch i <a href="http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act">http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act</a>	Wedi cwblhau
3. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus – Aseiad o lesiant lleol  Ebrill 2016 – Mai 2017	Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cwblhau eu hasesiad o lesiant lleol a fydd yn sail i'r amcanion lleol a bennir ganddynt. Ceir rhagor o fanylion yma <a href="http://llyw.cymru/topics/improving-services/public-services-boards">http://llyw.cymru/topics/improving-services/public-services-boards</a>	Wedi cwblhau